Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

AGENDA

19eg o Fedi 2008, 14:00 - 17:00

Y Tabernacl, Machynlleth

14:00	Croeso a Chyflwyniad
14:20	Cyfarchiad Cyweirnod: "Newid Hinsawdd, Cyfiawnder Byd-eang a Diogelwch Ynni" Patrick Holden, Prif Weithredwr Cymdeithas y Pridd
	Cwestiynau a Thrafodaeth
15:30	Cymeradwyaeth Cofnodion y CBC blaenorol a Materion yn Codi
15:45	Adroddiad Blynyddol ac Edrych Ymlaen Adroddiad Cyllid
16:15	Penderfyniadau Cyffredin
16:30	Unrhyw fater Arall
	Cau

Mae araith noswaith George Monbiot yn dechrau gyda bwffe swper am 19:00yh.

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Medi 19eg 2008, 14:00 – 17:00

Y Tabernacl, Machynlleth

Presennol:

Cyfarwyddwyr y Cwmni

Morgan Parry (MP)	Cadeirydd
Paul Allen	
Alex Badley	
Rhian Connick	
Sue Essex	
Richard Jarvis	
Andy Middleton	
Margaret Minhinnick	
John Osmond	
Jeremy Sherrard-Smith	
Tim Stowe	
Rob Sully	
Roger Thomas	

Aelodau

Julie Bromilow
Eluned Evans
Steve Evison
Martin Fitton
Susan Fowler
Claire Fowler
Bob Jacques
Calvin Jones
Catrin Ellis Jones
Ceri Jones
Colin Keyse
Ann MacGarry
Philip McDonnell
Vicky Moller
Alan Netherwood
Richard Pitts
Jim Poole
David Purdon
Deirdre Raffan
Andy Rowland
Shaun Russell
Eva Trier
Clive Walmsley
Deb Wozencraft
Sarah Wright
Einir Young

Staff y Cwmni

Helen Nelson (HN)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Gwenllian Evans (GE)	Swyddog Gweinyddol [Cofnodion]
Judy Leering (JL)	Swyddog Cyllid
Michele Aitchison (MA)	Cynghorydd Polisi

Rhiannon Dafydd (RD)	Swyddog Cyfathrebu
Neil Ingham (NI)	Rheolwr Polisi
Roz Robinson (RR)	Rheolwr Cyfathrebu
Rhodri Thomas (RT)	Swyddog Datblygiad

Ymddiheuriadau:

Ruth Williams, Gwenan Davies, Haf Roberts, Chris Mills, Sue Price, Ken Peattie.

1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r CBC ac atgoffodd y cyfarfod mai dim ond aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio.

2. Cymeradwyaeth Cofnodion y CBC cynt a Materion yn Codi

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw sylwadau neu faterion yn codi ynglŷn â chofnodion y CBC cynt. Nid oedd.

Nododd y Cadeirydd mai thema'r gynhadledd oedd 'trawsffurfiad' ac y byddai adroddiad newydd gan Cynnal Cymru - Sustain Wales o'r enw 'Trawsffurfio Cenedl' yn cael ei lansio. Roedd hyn yn cwblhau tair blynedd o waith ac yn creu sylfaen ar gyfer gwaith Cynnal Cymru am y blynyddoedd i ddod. Ychwanegodd fod y gwaith cyfathrebu wedi gwella'n ddramatig dros y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd i'r Bwrdd am eu gwaith dros y flwyddyn. Mae apwyntiad JL wedi bod o fudd i'r cwmni a hefyd diolchodd MP i arianwyr y cwmni.

3. (i) Adroddiad Blynyddol ac Edrych Ymlaen

Cyflwynodd HN yr Adroddiad Blynyddol a rhoddodd trosolwg o lwyddiannau'r cwmni eleni. Talodd teyrnged i Merfyn, yn drist bu iddo farw eleni. Diolchodd HN i Jim Poole sydd wedi gadael y cwmni. Diolchodd hi i'r staff ac Aelodau'r Bwrdd sydd ar y Pwyllgor Gweithredol. Rhoddodd HN trosolwg o gynlluniau cyffrous y cwmni am y flwyddyn i ddod ac ychwanegodd ei fod yn teimlo fel cyfnod newydd i Cynnal Cymru gyda'r cynnydd i'r staff a'r gallu cynhyrchu.

Cwestiwn: Oes cyngor ar hyfforddiant i unigolion sydd am fynd allan i Grwpiau Cymunedol?

Ateb: Atebodd HN fod y bwlch mewn hyfforddiant wedi cael ei nodi ac rydym yn edrych mewn i hyn gyda'r CGGC. Ychwanegodd Martin Fitton fod Trefi Trawsnewid hefyd yn darparu hyfforddiant.

Cymeradwyodd yr aelodau presennol yr Adroddiad Blynyddol.

(ii) Adroddiad Ariannol

Cyflwynodd JL y Cyfrifon Blynyddol a dwedodd fod y diffyg bach o £1,280 wedi ei ddisgwyl oherwydd symud swyddfa, ond wrth leihau gorbenion,

bydd arbedion tymor hir yn cael eu gwneud. Ychwanegodd mai rhif yr asedau net o 31 Mawrth 2008 oedd £13,000 ac mae'r cwmni mewn sefyllfa gyfforddus. Cynyddwyd cynhyrchiad incwm gan HN drwy ystod eang o ffynonellau. Bu Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am 84% o incwm Cynnal Cymru ar ddiwedd flwyddyn 08, o'i gymharu â 71% yn y flwyddyn i ddod. Ychwanegodd na adlewyrchwyd incwm mewn ffyrdd eraill yn y datganiadau ariannol, fel arbenigedd Aelodau Bwrdd a dodrefn swyddfa wedi'u hailgylchu.
Nid oedd cwestiynau.

4. Penderfyniadau cyffredin

Penderfyniad cyffredin

Y dylai adroddiad y Cyfarwyddwyr a chyfrifon y Cwmni am y flwyddyn orffennodd 31ain Mawrth 2008 fel yr archwiliwyd, cael eu derbyn.

Pasiwyd y penderfyniad *nem. con.*

Penderfyniad cyffredin

I Clay Shaw Thomas cael eu hail-apwyntio fel archwilwyr y Cwmni ac i'r cyfarwyddwyr gael eu hawdurdodi i osod eu tâl.

Pasiwyd y penderfyniad *nem. con.*

Penderfyniad cyffredin

I Haf Roberts gael ei ail-ethol fel cyfarwyddwr o'r Cwmni, a bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r cyfarfod ei fod wedi ei ddewis ar gyfer y pwrpas yma yn unol â'r dulliau gweithredu a mabwysiadwyd gan fwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni.

Pasiwyd y penderfyniad *nem. con.*

Penderfyniad cyffredin

I Dr Alan Netherwood gael ei ethol fel cyfarwyddwr o'r Cwmni, a bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r cyfarfod ei fod wedi ei ddewis ar gyfer y pwrpas yma yn unol â'r dulliau gweithredu a mabwysiadwyd gan fwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni.

Pasiwyd y penderfyniad *nem. con.*

Penderfyniad cyffredin

I Gareth Clubb gael ei ethol fel cyfarwyddwr o'r Cwmni, a bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r cyfarfod ei fod wedi ei ddewis ar gyfer y pwrpas yma yn unol â'r dulliau gweithredu a mabwysiadwyd gan fwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni.

Pasiwyd y penderfyniad *nem. con.*

Penderfyniad cyffredin

I Dr Einir Young gael ei ethol fel cyfarwyddwr o'r Cwmni, a bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r cyfarfod ei fod wedi ei ddewis ar gyfer y pwrpas yma yn unol â'r dulliau gweithredu a mabwysiadwyd gan fwrdd

cyfarwyddwyr y Cwmni.

Pasiwyd y penderfyniad *nem. con.*

5. Unrhyw Fater Arall

Gwnaeth HN gyflwyno NI (Rheolwr Polisi), RT (Swyddog Datblygiad) a MA (Cynghorydd Polisi).

Datganodd NI ei fod yn frwd i ymuno â Cynnal Cymru ac i helpu datblygu gwaith polisi'r cwmni. Ychwanegodd y byddai'n croesawi sylwadau aelodau wrth i strategaeth fwy manwl ymddangos yn y misoedd i ddod.

Siaradodd RT wedyn gyda'r cyfarfod, gan esbonio ei fod wedi ei ariannu dan y prosiect 'Rhwydweithiau ar gyfer Newid' ac roedd yn dymuno estyn ei gyrraedd tu hwnt i'r bobl arferol ac i hwyluso cydlyniad tu fewn. Croesawodd sylwadau a chwestiynau wrth aelodau.

5. Unrhyw Fater Arall

Siaradodd AM am bwysigrwydd ymestyn allan at gynifer o bobl a phosib ac efallai yn y blynyddoedd i ddod i gynyddu aelodaeth fewn i ddegau o filoedd.

Cwestiwn: Gofynnodd Dr Calvin Jones os oedd yna gynllun strategol gyda cherrig filltir ar y ffordd i osod gwaith NI a RT o fewn iddi?

Ateb: Atebodd HN ein bod yn dod i ddiwedd cynllun tair blynedd a chytunodd bod angen edrych ar ddogfen tymor hirach.

Cwestiwn: Awgrymodd Colin Keyse yr angen am gytundeb DC, yn cynnwys y tair cainc o DC, i bobl arwyddo iddi.

Ateb: Cytunodd MP fod yna gwerth meddwl am arwyddo i bwrpas cyffredin.

Cwestiwn: Dywedodd aelod mai ond ychydig o'r trafod da mewn cynadleddau sy'n cyrraedd y cymunedau. Awgrymodd fod angen cadw cysylltiad gyda'r cyrff sydd wedi gadael y maes.

Ateb: Atebodd MP fod y cynnydd staff yn rhoi cyfle.

Cwestiwn: Awgrymodd aelod fod bwlch cyfathrebu - yn aml nid yw pobl yn sylweddoli fod yna sefydliad i'w cynrychioli nhw a'u diddordebau. Gallai Cynnal Cymru bod yn sefydliad maent yn cysylltu â hi i gael gwybod pwy i droi atynt.

Ateb: Ymatebodd HN efallai ei fod yn bosib i bobl ddefnyddio Cynnal Cymru fel galwad am wybodaeth i weld os mae eraill wedi cael problemau tebyg. Ni allai Cynnal Cymru ei hun ymchwilio'r holl broblemau. Cytunodd MP y gallem ni wybod os oedd yna sefydliad gallai helpu. Awgrymodd RT pe bai cydgrynhoad o'r fath materion yn arwain at fater polisi, gallem ni wedyn cynrychioli hynny.

Cwestiwn: Gofynnodd aelod faint o waith lobio sy'n cael ei wneud gyda chynghorau lleol?

Ateb: Ymatebodd NI fydd Cynnal Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol. Awgrymodd fod angen gweithio gyda'n gilydd yn hytrach na lobio, nid i feirniadu polisi cyfredol ond i ddangos ble mae lle i newid.

Cwestiwn: Gofynnodd Martin Fitton am y Ddeddf Cymunedau Cynaladwy sydd ar gyfer Lloegr ond nid i Gymru.

Ateb: Ymatebodd SE fod llawer o waith wedi mynd mewn i'r ddogfen Trawsffurfio Cenedl. Cynllunio senario gall gwleidyddion cysylltu gyda.

Gwnaeth MP annog aelodau i gysylltu gyda staff os oes ganddynt gynigion polisi. Ychwanegodd efallai na fydd yn digwydd yn syth gan fod y Cynllun Busnes am y flwyddyn i ddod wedi ei drefnu ond gallai newidiadau dod yng ngwaith y flwyddyn nesaf.

6. Cau'r Cyfarfod

Diolchodd MP i staff, Aelodau'r Bwrdd a hefyd yr Aelodau Bwrdd sydd wedi sefyll i lawr eleni.

Dyddiad y cyfarfod cyffredinol nesaf i gael ei gadarnhau.